COLEG CAMBRIA

# CYNLLUN STRATEGOL

## 2020 - 2025



# CYNLLUN STRATEGOL

## 2020 – 2025

COLEG CAMBRIA

## DATGANIAD CENHADAETH

**Beth yr ydym yn ei wneud...**

"Rydym yn creu dyfodolau mwy disglair drwy ragoriaeth mewn addysg, drwy feithrin sgiliau a gwybodaeth dechnegol mewn amgylchedd cefnogol ac arloesol."

## GWELEDIGAETH

**Ein gweledigaeth ysbrydoledig ar gyfer y dyfodol...**

"Rhagori ar ddisgwyliadau drwy addysg, arloesedd ac ysbrydoliaeth."

## GWERTHOEDD

Lluniwyd ein cyfres o gyd-ddaliadau drwy ymgynghori â staff o bob un o safleoedd y Coleg.

Rydym yn cydweithio i sefydlu sut yr hoffem gael ein trin ac rydym eisiau gwerthoedd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant y coleg.

**Bydd ein gwerthoedd yn:**

- dylanwadu'n gadarnhaol ar y penderfyniadau rydym yn eu gwneud
- cynorthwyo datblygiad ein polisïau
- dylanwadu sut rydym yn rhyngweithio gyda'n gilydd

# EIN GWERTHOEDD

## 1 Dangos gonestrwydd ac uniondeb

Cyfathrebu tryloyw, agored a gonest sy'n darparu eglurder, yn creu ymddiriedaeth a chydberthnasau gwaith cadarnhaol, gan gydnabod bod gan bawb lais cyfartal.

## 2 Cael ein parchu a'n gwerthfawrogi

Mae pawb yn cyfrif. Mae ein cyfraniadau a'n hymdrechion yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

## 3 Bod yn garedig a chefnogol

Bod yn ystyrlon o eraill, yn agos-atoch ac yn barod i rannu arferion gorau a chefnogaeth. Bod yn rym cadarnhaol, sy'n creu diwylliant o ymgysylltu.

## 4 Gweithio gydag eraill

Creu dull cydweithredol o ddatrys problemau a gwella drwy rannu arfer da. Cefnogi'r naill a'r llall i lwyddo a sicrhau datblygiad cadarnhaol i'r Coleg a'i bartneriaid.

## 5 Teimlo'n gydradd a chynhwysol

Gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi drwy greu ymdeimlad o berthyn, datblygu cyfleoedd i bawb a hyrwyddo a gwerthfawrogi amrywiaeth.

## 6 Bod yn gymuned

Adeiladu pontydd fel ein bod yn cysylltu o fewn a gyda'n cymunedau lleol i gydweithio ar ein buddiannau cyffredin. Cyfrannu'n weithredol at gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y cymunedau hynny.

## 7 Bod yn rhagorol ac yn ysbrydoledig

Arddangos a datblygu gwybodaeth a sgiliau ein pobl er mwyn ysbrydoli eraill ac ymdrechu am ragoriaeth.

## 8 Annog ac ysgogi datblygiad

Cefnogi pobl i wireddu eu potensial drwy chwalu rhwystrau a chreu cyfleoedd.

## 9 Bod yn angerddol

Gofalu'n ddwfn am ein gwaith a chael ein sbarduno gan ein cenhadaeth i wthio'r terfynau a llwyddo, gan ysbrydoli'r un peth mewn eraill.

## 10 Bod yn arloesol

Creu cyfleoedd a gwella ffyrdd o weithio drwy harneisio creadigrwydd pobl. Arloesi a mabwysiadu datrysiadau a syniadau newydd yn ddi-ofn. Croesawu newidiadau i wneud pethau'n well mewn byd sy'n newid.

# EIN NODAU STRATEGOL

**Mae ein nodau strategol a'n meysydd allweddol yn rhoi'r cyfeiriad clir y bydd y Coleg yn ei gymryd dros y tair blynedd nesaf. Mae pob nod yn cynrychioli beth sy'n sylfaenol bwysig i'r coleg ac yn helpu'r holl staff i weithio tuag at nodau a rennir.**





## CENEDLAETHOL

Sicrhau bod y coleg yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o fod yn ddarparwr addysgol allweddol yng Nghymru, gan gefnogi ei iaith a'i ddiwylliant ac ymateb i bolisïau cenedlaethol mewn modd arloesol a chydweithredol.

## ARIANNOL

Cynnal sefyllfa ariannol gadarn a chynaliadwy i gyflawni nodau strategol drwy reoli mewn modd effeithlon, effeithiol ac ymatebol.





## CYMUNEDAU LLEOL

Yn falch o fod wrth galon ein cymunedau, ymgysylltu'n weithredol gyda nhw i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion drwy'r amser, a'u cefnogi i ffynnu a chryfhau.



## CWRICWLWM

Diwallu blaenoriaethau sgiliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy gynnig cwricwlwm hynod ymatebol, arloesol ac wedi'i arwain gan ddiwydiant, gan ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a phartneriaid. Hybu uchelgeisiau pawb gan sicrhau lefelau uchel o gyrhaeddiad sy'n galluogi pawb i gyflawni eu potensial.

## YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR

Darparu gwasanaeth hollgynhwysol i gyflogwyr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol sy'n rhagori ar eu hanghenion nhw ac anghenion eu gweithlu. Ehangu ein cynnig i gael effaith gadarnhaol ar economïau'r dyfodol wrth ymgorffori profiad gwaith ystyrlon a chyfoethog yn arlwy ein cwricwlwm.





## PERSON-GANOLOG

Sicrhau bod y Coleg yn lle arbennig i weithio a dysgu ynddo fel bod ein pobl i gyd yn cael y cyfle i fyw eu bywydau gorau, wedi'u cefnogi gan ddiwylliant ymddiriedus o wneud gwaith da gyda'r hyblygrwydd mwyaf a'r cyfyngiadau lleiaf, gan ddatblygu arferion a phrosesau gweithio priodol ac effeithiol ar y cyd.



## YSTADAU

Creu ystâd gynaliadwy ac ysbrydoledig sy'n diwallu anghenion busnes y Coleg ac yn cyflawni uchelgeisiau'r gymuned leol.



## ANSAWDD

Sicrhau profiad rhagorol personoledig i fyfyrwyr sy'n arwain at lefelau uchel cyson o lwyddiant myfyrwyr ac yn cefnogi cynnydd ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.



## CYNALIADWYEDD

Gwella ein perfformiad amgylcheddol a newid y ffordd yr ydym yn gweithredu mewn modd sylfaenol er mwyn bod yn sefydliad carbon isel cynaliadwy sy'n arweinydd amlwg ym maes cynaliadwyedd ar draws addysgu a dysgu a gweithrediadau'r Coleg.

COLEG CAMBRIA

# CYNLLUN STRATEGOL

2020 - 2025

WWW.CAMBRIA.AC.UK

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am ein Cynllun Strategol 2020-23, anfonwch e-bost at 2020-23@cambria.ac.uk